



# Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

# Hyfforddiant ar gyfer adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig

## Hydref 2013



BUDDSODDWR  
MEWN POBL

Aur



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ colegau arbenigol annibynnol;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ Cymraeg i oedolion;
- ▲ dysgu yn y gwaith; a
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>Cefndir</b>	<b>1</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	<b>4</b>
<b>Argymhellion</b>	<b>6</b>
<b>Safonau</b>	<b>7</b>
<b>Darpariaeth</b>	<b>10</b>
<b>Addysgu ac asesu</b>	<b>12</b>
<b>Llythrennedd, rhifedd a chymorth</b>	<b>13</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>14</b>
<b>Adeiladau ac adnoddau</b>	<b>16</b>

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth**

**Atodiad 2: Cwestiynau ar gyfer hunanarfarnu i hyrwyddo gwelliant  
mewn rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd  
adeiledig**

**Atodiad 3: Cymariaethau data**

**Geirfa a chyfeiriadau**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

## Cyflwyniad

Diben yr arolwg thematig hwn yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru (LIC) ar safonau ac ansawdd presennol y ddarpariaeth ar gyfer adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig mewn sefydliadau addysg bellach (SABau) a darparwyr dysgu yn y gwaith, yn unol â'r hyn a ofynnwyd yn y llythyr cylch gwaith blynyddol i Estyn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru ac arweinwyr, rheolwyr a staff darparwyr SABau a darparwyr dysgu yn y gwaith. Gallai fod o ddiddordeb i Gynghorau Sgiliau Sector (CSSau), undebau llafur, cyrff masnach a chyflogwyr ar draws y sector adeiladu hefyd. Mae'r adroddiad yn defnyddio'r ystod o dystiolaeth a nodir yn Atodiad 1, cwestiynau ar gyfer hunanarfarnu yn Atodiad 2 a chymariaethau data yn Atodiad 3.

## Cefndir

Mae adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig yn feysydd polisi allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo twf economaidd a mynd i'r afael â datblygiad amgylcheddol a chynaliadwy yng Nghymru. Mae adeiladu yn un o'r nawr sector economaidd y rhoddir blaenoriaeth iddynt a gefnogir gan waith Panel Sector sy'n cynnwys diwydianwyr allweddol. Mae gan y sector rôl arwyddocaol hefyd mewn cyflwyno Cynllun Buddsoddi Isadeiledd Cymru, ac mae meysydd polisi arwyddocaol ar draws sectorau sy'n cysylltu â chynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig yn bwysig iawn i economi Cymru. Mae tua 10,000 o fusnesau yn gweithredu o fewn y sector adeiladu yng Nghymru, gan gyflogi ychydig llai na 100,000 o bobl. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i'r dirywiad economaidd a'r dirwasgiad, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y contractau gwaith sydd ar gael yn y sector. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o gontractau tymor hir sylweddol sydd ar gael, ac mae llawer o gontractau yn rhai bach a thymor byr.

Mae cyfraniad y sector adeiladu yng Nghymru at yr economi wedi dirywio ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Yn ystod 2012, bu gostyngiad o 13% mewn gweithgarwch yn y diwydiant adeiladu. Yn y sector proffesiynol, bu gostyngiad parhaus yng ngwaith syrfewyr siartredig yn y cyfnod o Ionawr 2013. Ar hyn o bryd, tai preifat yw'r unig sector y gwelir ychydig iawn o gynnydd mewn gweithgarwch gwaith ynddo. Bu ychydig iawn o gynnydd mewn gweithgarwch gwaith mewn isadeiledd, yn y sectorau masnachol, diwydiannol a chyhoeddus.

Disgwylir i'r allbwn adeiladu yng Nghymru dyfu ar gyfradd gyfartalog o 2.7% y flwyddyn dros y pum mlynedd at 2017, sy'n llawer uwch na chyfradd gyfartalog y DU, sef 0.8%. Y prif reswm dros y twf disgwylidig hwn yw'r orsaf pŵer niwclear arfaethedig yn Wylfa, Ynys Môn. Heb y prosiect hwn, mae'r gyfradd twf blynyddol arfaethedig ar gyfer adeiladu yng Nghymru yn disgyn i 0.6% yn unig dros y pum mlynedd hyd at 2017.

Mae galwedigaethau yn y sector adeiladu yn amrywio o sector proffesiynol penseiri, dylunwyr a syrfewyr i weithwyr masnach fel gosodwyr brics, trydanwyr, plymeriaid a seiri coed. Mae mwyafrif y gweithwyr yn hunangyflogedig. Ymgymrir â chontractau fesul prosiect yn gyffredinol. Mae'r gweithwyr hyn yn aml yn ymgymryd â phrosiectau bach i ganolig a gallent weithio fel is-gontractwr ar brosiectau mawr hefyd, fel datblygiadau preswyl neu fasnachol newydd. Mae llawer o fasnachau yn y sector yn parhau i fod yn draddodiadol o ran eu cymeriad, gan ddibynnu ar arferion a medrau crefft sefydledig.

Mae benywod yn cyfrif am ryw 9% o'r holl gyflogeion yn y sector, yn weithwyr proffesiynol yn bennaf, gyda dim ond rhyw 1% yn weithwyr masnach.

Ledled Cymru, mae tua 94% o fusnesau adeiladu yn cyflogi 10 aelod o staff neu lai. Nid yw'n hawdd i'r busnesau bach a'r unig fasnachwyr hyn allu rhagweld eu baich gwaith na'r math o waith y gofynnir iddynt ei wneud. Yn y rhan fwyaf o achosion, trefnir gwaith am ychydig wythnosau ymlaen llaw yn unig. O ganlyniad, mae llawer o gyflogwyr yn amharod i gyflogi prentisiaid neu staff newydd.

**Tabl 1: Y rhagolygon presennol ar gyfer gofynion recriwtio yng Nghymru ar sail y twf disgwylidig cyfartalog ar draws y sector adeiladu hyd at 2017<sup>1</sup>**

Galwedigaethau dethol mewn adeiladu	Cyflogaeth 2013	Cyflogaeth 2017
Masnachau pren a gosod offer y tu mewn i adeiladau	12,720	12,330
Gosodwyr brics	4,250	3,980
Arbenigwyr amlenni adeiladu	4,330	4,150
Peintwyr ac addurnwyr	5,670	5,140
Gweithwyr sy'n gosod gwydr	2,270	2,300
Gweithredwyr adeiladu arbenigol	2,950	2,590
Gweithwyr sy'n gosod sgaffaldiau	480	500
Gweithredwyr offer	1,580	1,420
Mecanyddion/gosodwyr offer	1,530	1,640
Masnachau trydanol a gosod offer trydanol	5,330	4,770
Gwaith plymer a masnachau HVAC	7,940	7,440
Labrwy	5,220	4,870
Logisteg	1,190	1,140
Peirianwyr Sifil	3,210	3,150
Staff proffesiynol a thechnegol eraill ym maes adeiladu	6,770	6,590
Penseiri	1,040	1,090
Syrfewyr	1,860	2,000
Uwch weithredwyr a rheolwyr prosesau busnes	3,560	3,540
Rheolwyr adeiladu	5,300	5,510
Staff technegol, TG a staff swyddfa eraill	7,620	7,720
Plastrwyr a leinwyr sych	1,820	1,940
Towyr	940	880
Llorwyr	1,280	1,180

<sup>1</sup> Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu, Glasbrint ar gyfer Adeiladu 2013-2017, Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Codwyr dur a strwythurol	2,250	2,020
Gweithwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu	3,010	2,710
Gweithwyr peirianeg sifil	2,340	2,310
<b>Cyfanswm (ar draws yr holl alwedigaethau)</b>	<b>96,460</b>	<b>92,910</b>

Mae ffigurau presennol yn dangos mai'r maes mwyaf ar gyfer cyflogaeth yw masnachau pren, sy'n cyfrif am ryw 13% o'r rhai a gyflogir yn y sector yng Nghymru. Er y disgwylir i gyflogaeth ddirywio yn gyffredinol, disgwylir cynnydd o ran cyflogaeth mewn nifer o swyddi yn ystod y cyfnod 2012-2017. Disgwylir twf blynyddol cyfartalog o 1.4% o ran plastrwyr a leinwyr sych a chynnydd cyfartalog o 1% y flwyddyn o ran syrfewyr. Mewn cyferbyniad, disgwylir gostyngiad blynyddol cyfartalog o 4.3% ar gyfer gweithwyr adeiladu arbenigol.

Yn draddodiadol, mae'r sector wedi dangos ymrwymiad cryf i hyfforddi newydd-ddyfodiaid. Mae hyfforddiant crefftau ar gael ar lefelau 1 i 3 yn gyffredinol, a chyflawnir statws medrus ar lefel 3. Mae dysgwyr yn ymgymryd ag ystod o hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith a gweithgareddau asesu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr yn dechrau hyfforddiant pan fyddant yn 16-17 oed, er bod rhai ohonynt yn dilyn cyrsiau rhagflas yn 14 oed. Yn yr achosion prin hyn, mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cyflwyno rhaglenni cyswllt ysgol sy'n rhoi rhagflas da ar y cyfan i ddysgwyr o ran gweithio yn y diwydiant adeiladu.

Mae nifer sylweddol o sefydliadau addysg bellach yn darparu rhaglenni addysg uwch (AU). Caiff y rhaglenni hyn eu haddysgu gan staff y coleg, ond fe'u cyflwynir ar y cyd â'r sector AU. Mae'r rhaglenni hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr symud ymlaen o raglenni lefel 3 i raglenni tystysgrif genedlaethol uwch (HNC) a diploma cenedlaethol uwch (HND). Mae ystod y ddarpariaeth a gynigir gan sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith ledled Cymru yn dda ar y cyfan ac mae'n cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau a rhaglenni hyfforddi ar gyfer dysgwyr. Mae'r adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar raglenni hyfforddi a chymwysterau hyd at, a chan gynnwys, lefel 3.

Mewn sefydliadau addysg bellach, mae dysgwyr yn gyffredinol yn dilyn prif gymhwyster, ond mewn llawer o achosion, gallant fanteisio ar gyfleoedd da hefyd i ennill medrau ychwanegol yn gysylltiedig â gwaith a chymwysterau yn gysylltiedig ag anghenion eu cyflogwyr. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant yn y datblygiadau technolegol ac amgylcheddol diweddaraf yn y sector. Mewn dysgu yn y gwaith, mae dysgwyr yn cwblhau fframwaith cymwysterau, gan gynnwys Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC), tystysgrif dechnegol a Chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC). Rhaid i'r dysgwr gyflawni pob rhan o'r fframwaith er mwyn llwyddo yndo.

Y ddau brif gyngor sgiliau sector (CSSau) ar gyfer y sector adeiladu yw CITB-Sgiliau Adeiladu a Summit Skills. Mae CITB-Sgiliau Adeiladu yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r medrau crefftau traddodiadol, heblaw'r sectorau gosod offer trydanol, gwaith plymer a gwresogi. Ar hyn o bryd, mae'n un o'r ychydig iawn o fyrddau hyfforddi diwydiant (BHDau) sy'n casglu treth flynyddol gan y sector bob blwyddyn ac yn ei dychwelyd i'w gyflogwyr trwy grantiau hyfforddiant ac addysg. Summit Skills yw'r CSS ar gyfer diwydiannau electro-dechnegol (gosod offer trydanol), gwresogi, awyru, aerdymheru, oeri a gwaith plymer.

## Prif ganfyddiadau

- 1 Mae'r holl sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith sy'n cyflwyno rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig yn parhau i gyflwyno'r cymwysterau medrau adeiladu traddodiadol craidd a fu ar gael ac y bu galw amdanynt ers blynyddoedd lawer hefyd. Fodd bynnag, er y bu newidiadau yng nghynnwys cymwysterau adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig yn ddiweddar, nid ydynt bob amser yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr lleol yn llawn. Er enghraifft, nid yw llawer o ddysgwyr gwaith plymer yn cael profiad a chyfleoedd asesu yn rheolaidd wrth weithio ar reolyddion gwres canolog a gwresogi. Mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn aml yn dyblygu darpariaeth yn yr un ardal ddaearyddol ac nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i wybodaeth am y farchnad lafur leol.
- 2 Ni waeth faint o waith sydd ar gael, mae adeiladu yn parhau i fod yn ddewis poblogaidd ar gyfer hyfforddi ymhlith dysgwyr. At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi ac yn ennill cymwysterau eraill arnynt wedi gwella dros y cyfnod rhwng 2009 a 2011. Fodd bynnag, dim ond cymedrol yw perfformiad o gymharu â pherfformiad mewn meysydd dysgu eraill. Yn y cyfnod 2010 i 2011, roedd rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig mewn sefydliadau addysg bellach yn y deuddegfed safle o'r 19 o feysydd dysgu ar gyfer cyfraddau cwblhau llwyddiannus dysgwyr. Mewn dysgu yn y gwaith, roeddent yn y nawfed safle o'r 11 o feysydd dysgu ar gyfer cyfran y dysgwyr yn cwblhau eu fframwaith cymhwyster llawn.
- 3 At ei gilydd, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn symud ymlaen o raglenni lefel 1 i lefel 2 a rhaglenni lefel 2 i lefel 3 arni yn debyg i'r gyfradd mewn rhaglenni crefftau galwedigaethol eraill. I gwblhau rhaglenni lefel 3, mae angen i ddysgwyr gael eu cyflogi neu fod wedi cael profiad sylweddol mewn gweithle. Fodd bynnag, ni sicrhair profiad gwaith ar gyfer pob dysgwr amser llawn mewn sefydliadau addysg bellach, ac yn aml, mae'n rhaid iddynt drefnu eu lleoliadau eu hunain. Yn rhy aml, nid yw dysgwyr naill ai'n elwa ar brofiad gwaith neu maent yn manteisio ar brofiad gwaith ad-hoc nad yw bob amser yn gweddu'n dda i'w hanghenion hyfforddi ac asesu. Nid yw dysgwyr nad ydynt yn manteisio ar brofiad gwaith yn datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion ac arferion gweithio ar y safle i safonau diwydiant. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr amser llawn lefel 2 sy'n bryderus iawn na fyddant yn cael y cyfle i symud ymlaen i raglenni lefel 3 oherwydd diffyg profiad gwaith priodol. Mae'r dirywiad yn yr economi a sector adeiladu wedi cyfrannu at y ffaith fod llai o leoliadau gwaith ar gael hefyd.
- 4 Mae gormod o ddysgwyr sy'n dilyn ac yn cwblhau rhaglenni mewn sefydliadau addysg bellach nad ydynt yn mynd ymlaen i gael swydd yn y diwydiant adeiladu. Fodd bynnag, mae'r gyfradd y mae prentisiaid yn parhau i gael eu cyflogi yn y sector adeiladu arni yn dda.
- 5 Mae rhai dysgwyr yn symud ymlaen i ddilyn rhaglenni addysg uwch (AU). Mae'r rhaglenni hyn ar lefel 4 yn gyffredinol, ac fe'u cyflwynir gan sefydliadau addysg bellach trwy drefniadau rhyddfrait gyda'r sefydliadau AU. Cymru sydd â'r gyfran isaf o ddysgwyr yn dilyn y rhaglenni hyn yn y Deyrnas Unedig (DU) ar hyn o bryd. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer fach o gyfleoedd am swyddi sydd ar gael yng Nghymru.

- 6 Mae mwyafrif y sefydliadau addysg bellach wedi datblygu a chyflwyno rhaglenni sy'n gysylltiedig â thechnolegau amgylcheddol newydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y rhaglenni hyn eu sefydlu gyda lefelau da o nawdd gan weithgynhyrchwyr a chyflenwyr.
- 7 Mae lleiafrif o sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd lleol i gyflwyno rhaglenni adeiladu. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu addysg a hyfforddiant galwedigaethol perthnasol ar gyfer pobl ifanc o ysgolion lleol. Mae'r cyrsiau hyn yn darparu ystod dda o raglenni rhagarweiniol sy'n cynnig dilyniant i hyfforddiant a chymwysterau mewn crefftau. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn defnyddio'r arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael yn eu sefydliadau addysg bellach a'u darparwyr dysgu yn y gwaith lleol i helpu cyflwyno'r rhaglenni hyn.
- 8 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa ar sesiynau ymarferol yn gysylltiedig â masnachau, sy'n rhoi cyfleoedd da iddynt ddatblygu eu medrau ymarferol sylfaenol mewn amgylcheddau priodol. Fodd bynnag, ni chaiff mwyafrif y dysgwyr eu herio'n effeithiol gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr i ddatblygu safonau uwch o gymhwysedd ymarferol. Yn yr achosion hyn, dim ond y medrau ymarferol a'r wybodaeth am theori a fydd yn eu galluogi i lwyddo mewn asesiadau y mae dysgwyr yn eu datblygu.
- 9 At ei gilydd, mae gormod o amrywiad yn ansawdd y cymorth y mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn ei roi i ddysgwyr i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, nid yw lleiafrif o staff adeiladu yn cydnabod manteision cefnogi dysgwyr i wella eu llythrennedd a'u rhifedd. Yn yr achosion hyn, nid yw mwyafrif y dysgwyr yn cydnabod pwysigrwydd llythrennedd a rhifedd. Nid yw dysgwyr bob amser yn elwa ar adborth ysgrifenedig adeiladol ar eu gwaith gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr a fyddai'n eu galluogi i wella eu perfformiad. Ni chaiff cymorth llythrennedd a rhifedd ei integreiddio'n effeithiol yn yr holl raglenni.
- 10 Mae arweiniad ar yrfaeodded yn aml yn aneglur ac yn aml yn cael ei gamgyfeirio. Mewn gormod o achosion, mae ymgynghorwyr gyrfaeodded ysgol yn cyfeirio dysgwyr, bechgyn llai abl yn bennaf, at hyfforddiant crefftau adeiladu fel dewis gyrfa addas. Mae hyn yn aml yn wir gyda dysgwyr sy'n aflonyddgar yn y dosbarth, sydd â chofnod presenoldeb gwael ac sydd wedi eu dadrithio â'r ysgol yn gyffredinol. Mewn gwirionedd, efallai nad adeiladu yw'r llwybr mwyaf priodol ar gyfer y dysgwyr hyn bob tro. Mae'r ysgolion gwell yn sicrhau bod cyrsiau rhagflas mewn sectorau eraill ar gyfer yr unigolion hyn er mwyn iddynt allu cael dewis gwybodus gwell am eu hyfforddiant yn y dyfodol.
- 11 Yn gyffredinol, nid yw darparwyr yn gwneud digon i ddatblygu a chynnal cysylltiadau effeithiol gyda diwydiant lleol. Nid oes digon o ddarparwyr yn elwa ar ymgysylltu'n effeithiol â chyflogwyr trwy grwpiau llywio neu ymgynghori. Mewn sefydliadau addysg bellach, nid yw athrawon ac aelodau eraill o staff yn gwneud digon yn gyson i wneud yn siŵr bod cysylltiadau â chyflogwyr yn cael eu cynnal i sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar brofiad gwaith rhaglenedig, trefnus a strwythuredig.
- 12 Nid yw mwyafrif yr athrawon, yr hyfforddwyr a'r aseswyr wedi gweithio yn y diwydiant ers llawer o flynyddoedd, ac nid oes ganddynt brofiad diwydiannol cyfoes.



## Argymhellion

### Dylai Llywodraeth Cymru:


- A1 drafod gyda darparwyr i ariannu rhaglenni sy'n gweddu i anghenion y farchnad lafur; a
- A2 gwneud y fframwaith cymwysterau ar gyfer y sector adeiladu yng Nghymru yn fwy perthnasol i anghenion diwydiant trwy ddarparu dewis gwell o unedau dewisol yn ogystal ag elfennau craidd y rhaglen, a sicrhau bod y fframwaith yn cynnwys ffocws ar lythrennedd a rhifedd.

### Dylai darparwyr addysg a hyfforddiant:

- A3 wella ansawdd eu rhwydweithiau a'u perthnasoedd gyda chyflogwyr lleol;
- A4 gwella'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau a'u fframweithiau arni;
- A5 integreiddio llythrennedd a rhifedd yn llawn yn yr holl raglenni a gwneud yn siŵr bod athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr wedi'u paratoi i gefnogi anghenion llythrennedd a rhifedd dysgwyr;
- A6 herio dysgwyr i ddatblygu ac ennill medrau ymarferol a gwybodaeth am theori ar lefel uwch;
- A7 rhaglennu a threfnu lleoliadau profiad gwaith diwydiannol ar gyfer yr holl ddysgwyr amser llawn mewn sefydliadau addysg bellach;
- A8 defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn fwy effeithiol i baru'r ddarpariaeth â chyfleoedd cyflogaeth leol, gan reoli'r galw gan ddysgwyr trwy ddefnyddio cyngor ac arweiniad effeithiol; a
- A9 diweddarau profiad a gwybodaeth ddiwydiannol athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn rheolaidd.

## Safonau


- 13 At ei gilydd, bu gwelliant yn y cyfraddau<sup>2</sup> y llwyddodd dysgwyr ar raglenni adeiladu mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith i ennill eu cymwysterau rhwng 2008 a 2011. Fodd bynnag, roedd hyn yn gyson â'r gwelliant ar draws yr holl feysydd dysgu ar y cyfan. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill rhaglenni lefel 2 a lefel 3 arnynt yn debyg iawn mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith.
- 14 Yn y cyfnod rhwng 2008 a 2011, bu rhywfaint o ostyngiad yn nifer y dysgwyr a gwblhaodd raglenni adeiladu mewn sefydliadau addysg bellach o 12,505 yn 2008-2009 i 12,040 yn 2010-2011. Yn 2010-2011, cwblhaodd 91% o ddysgwyr eu rhaglenni, sef cynnydd o dri phwynt canran ar 2008-2009. Mae'r gyfradd wella hon yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer yr holl feysydd dysgu yn yr un cyfnod. Yn 2010-2011, y gyfradd cyrhaeddiad<sup>3</sup> gyffredinol ar gyfer dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach oedd 80%, sydd yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer yr holl feysydd dysgu eraill.



- 15 Mewn dysgu yn y gwaith, mae dysgwyr yn cwblhau fframwaith o gymwysterau, gan gynnwys Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC), tystysgrif dechnegol a Chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC). Rhaid i'r dysgwyr gyflawni pob rhan o'r fframwaith er mwyn llwyddo ynddo. Cyflwynir fframweithiau ar gyfer adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig ar ddwy lefel, sef prentisiaeth sylfaen ar lefel 2 a phrentisiaeth ar lefel 3. Yn y cyfnod 2010 i 2011, y gyfradd cyflawniad gyffredinol gan ddysgwyr yn y fframwaith cymhwyster llawn ar gyfer y rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig amrywiol mewn dysgu yn y gwaith oedd 77%, a oedd fwy neu lai'r un fath â'r cyfartaledd ar gyfer yr holl feysydd dysgu. Yn y cyfnod rhwng 2008 a 2011, bu gwelliant o 6 pwynt canran yn y gyfradd cyrhaeddiad cyffredinol ar gyfer fframweithiau mewn adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, yn debyg i'r gwelliant cyfartalog ar gyfer yr holl feysydd dysgu.

<sup>2</sup> Gweler atodiad 3 i weld crynodeb manwl o ddeilliannau.

<sup>3</sup> Y gyfradd cyrhaeddiad yw cyfran y dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster ar ôl cwblhau cwrs. Y gyfradd cwblhau yw cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau cwrs ar ôl cofrestru arno.



- 16 At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr sefydliadau addysg bellach a dysgu yn y gwaith yn ennill eu cymwysterau ac yn cwblhau eu fframweithiau arnynt yn gyson ar draws pob un o'r masnachau ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw cynnwys yr holl fframweithiau neu raglenni lefel 3 yr un mor heriol â'i gilydd. Er enghraifft, mae angen i ddysgwyr electro-dechnegol (gosod offer trydanol) ddatblygu dealltwriaeth dda o wyddoniaeth a mathemateg yn ystod eu cwrs. Rhaid i'r dysgwyr hyn lwyddo mewn prawf ymarferol trylwyr ar ddiwedd eu hyfforddiant lefel 3 hefyd i gael 'statws cymwys'. Heb gyflawni pob agwedd ar y rhaglen, ni fydd y dysgwr yn gallu bod yn drydanwr 'cofrestredig'. Heb hyn, ni fydd yn gallu gweithio mewn unrhyw amgylchedd domestig na masnachol. O gymharu, mae angen i ddysgwyr gwaith saer ac asiedydd, gosod brics a pheintio ac addurno gwblhau'r cymhwyster lefel 3 ond nid oes rhaid iddynt gwblhau unrhyw brofion masnach pellach ar ddiwedd eu hyfforddiant i gael 'statws cymwys'. Mae lefel y galw amdanynt gryn dipyn yn is.
- 17 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'u cwrs neu'u hyfforddiant. Maent wedi'u cymell yn dda ac mae llawer ohonynt yn awyddus i symud ymlaen i lefel uwch o hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau'r agweddau ymarferol ar eu cwrs; mae'r mwyafrif ohonynt yn datblygu medrau ymarferol priodol gan gynnwys defnyddio ystod gynhwysfawr o offer llaw a phŵer, i gwblhau eu cymwysterau a'u hyfforddiant. Mae rhai dysgwyr yn cymryd rhan mewn cynllunio gwersi ac maent yn cynhyrchu gwaith ymarferol o safon uchel.
- 18 Fodd bynnag, mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, ni chaiff mwyafrif y dysgwyr eu herio'n effeithiol gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr i ddatblygu safonau uwch o gymhwysedd ymarferol, yn sgil y diffyg her gan athrawon yn y mwyafrif o sesiynau. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr dim ond yn datblygu'r medrau ymarferol a'r wybodaeth am theori sydd eu hangen i gwblhau asesiadau.
- 19 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr cyflogedig yn dangos dealltwriaeth dda o'r gwaith ymarferol a wneir yn y gwaith neu i ffwrdd o'r gwaith. Maent yn ei weld yn berthnasol i'r gwaith a wnânt ar y safle. Fodd bynnag, mae gwaith a gwblheir ar y safle i safon broffesiynol foddhaol weithiau'n cael ei ailadrodd yn ddiangen i ffwrdd o'r gwaith mewn amgylchedd ffug at ddibenion asesu. Nid yw dysgwyr i ffwrdd o'r gwaith yn

cael eu herio gan hyfforddwyr bob amser i ddatblygu ac ennill medrau ymarferol a gwybodaeth am theori ar lefel uwch.

- 20 Nid yw lleiafrif o ddysgwyr amser llawn mewn sefydliadau addysg bellach yn gallu manteisio ar brofiad gwaith. Mae hyn yn destun pryder sylweddol gan fod angen i ddysgwyr fod mewn swydd neu gael profiad gwaith sylweddol i ddilyn rhaglenni lefel 3. Mae profiad gwaith yn bwysig ar gyfer ennill medrau a phrofiad ymarferol angenrheidiol sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae hefyd yn hanfodol i alluogi dysgwyr i ymgymryd â, a chwblhau'r asesiadau ymarferol hanfodol ar y safle sy'n ofynnol i gwblhau eu cymwysterau ar bob lefel. Mae bron pob un o'r dysgwyr, yn enwedig ar lefelau 1 a 2 yn ymgymryd ag asesiadau mewn amgylcheddau gwaith realistig (AGR) mewn gweithdai coleg.
- 21 Mae dysgwyr amser llawn yn dangos y medrau ymarferol priodol i gwblhau asesiadau mewn gweithdai coleg. Yn y mwyafrif o achosion, mae dysgwyr cyflogedig sy'n dilyn rhaglenni rhan-amser mewn sefydliadau addysg bellach a'r rhai sy'n dilyn rhaglenni dysgu yn y gwaith yn datblygu lefelau uwch o gymhwysedd ymarferol. Bydd y medrau hyn yn aml yn cynnwys darganfod diffygion ac atgyweirio neu allu gweithio heb oruchwyliaeth ar ystod o dasgau mwy datblygedig. Mae'r dysgwyr hyn yn elwa ar ymgymryd ag ystod eang o dasgau ar y safle.
- 22 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr dysgu yn y gwaith a dysgwyr sefydliadau addysg bellach cyflogedig yn datblygu dealltwriaeth dda o weithio yn y sector adeiladu pan fyddant ar y safle. Er enghraifft, maent yn deall bod angen cwblhau'r holl waith yn unol â'r safon broffesiynol briodol ac o fewn y graddfeydd amser y cytunir arnynt gyda'r cwsmer. Mae'r dysgwyr hyn yn cael cyfarwyddyd a chymorth da ar y cyfan gan eu goruchwylwyr a'u haseswyr.
- 23 Mae mwyafrif y darparwyr wedi rhoi strategaethau llythrennedd a rhifedd priodol ar waith erbyn hyn, ond nid yw pob un ohonynt wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Mewn lleiafrif sylweddol o achosion, nid yw dysgwyr yn cydnabod manteision ehangach datblygu'r medrau hyn. Mae'r medrau a ddatblygir gan ddysgwyr yn briodol ar gyfer cwblhau'r rhaglen, a gwneir cynnydd annigonol o ran cyflawni lefel gyffredinol, well o gymhwysedd mewn llythrennedd. Er enghraifft, prin yw'r dysgwyr sy'n gwella eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg i safon briodol yn ystod eu rhaglenni hyfforddi.
- 24 Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr yn gwbl ymwybodol o'u man cychwyn, beth mae angen iddynt ei wneud i wella a'r cynnydd y maent yn ei wneud mewn llythrennedd a rhifedd.
- 25 Rhwng 2010 a 2013, mae dysgwyr wedi canolbwyntio mwy ar eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o gydraddoldeb a chyfle cyfartal. Yn yr achosion gorau, caiff dealltwriaeth dysgwyr ei datblygu gan astudiaethau achos sy'n berthnasol i'r diwydiant adeiladu. Caiff dealltwriaeth dysgwyr ei hatgyfnerthu a'i phrofi trwy gydol eu rhaglen hyfforddi. Mae adolygiadau cynnydd yn ymgorffori sesiynau holi ac ateb cynlluniedig i brofi gwybodaeth dysgwyr.
- 26 At ei gilydd, mae dysgwyr yn y gwaith yn dangos lefelau da iawn o brydlondeb a phresenoldeb. Mae gan y dysgwyr hyn statws cwbl gyflogedig ac maent yn ymwybodol o ddisgwyliadau eu cyflogwyr a'u cleientiaid. Mewn sefydliadau addysg bellach, mae presenoldeb a phrydlondeb y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dda.

## Darpariaeth

- 27 Mae cydweithio rhwng sefydliadau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a Llywodraeth Cymru yn dda ar y cyfan ac yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chyllid a chontractau.
- 28 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn gweithio'n dda gyda chynghorau sgiliau sector. Mae sefydliadau addysg bellach yn gweithio'n arbennig o dda ar y cyfan gyda CITB-Sgiliau Adeiladu. Maent yn rhoi lefelau da o gymorth, gwybodaeth a deallusrwydd i sefydliadau addysg bellach sy'n gysylltiedig â'r sector adeiladu. Mae'r agwedd hon yn arbennig o fuddiol pan fydd y sefydliad addysg bellach yn gweithredu fel darparwr hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith dysgu yn y gwaith ar gyfer CITB-Sgiliau Adeiladu. Mae hyn am fod CITB-Sgiliau Adeiladu yn ddarparwr dysgu yn y gwaith hefyd, sydd dan gontract i gyflwyno rhaglenni dysgu yn y gwaith yng Nghymru.
- 29 Fodd bynnag, ar draws yr holl ddarparwyr, nid oes digon o drafod gyda darparwyr i sicrhau bod hyfforddiant a ariennir yn gweddu i anghenion y farchnad lafur leol. At ei gilydd, mae ystod eang o ddarpariaeth hyfforddiant adeiladu ar gael ledled yr holl ranbarthau daearyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gormod o ddyblygu darpariaeth gan sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn yr un ardal ddaearyddol leol. Er enghraifft, maent yn aml yn cyflwyno'r un rhaglenni gwaith saer ac asiedydd, electro-dechnegol, gwaith plymer a gwaith brics. At ei gilydd, ni chaiff gwybodaeth am y farchnad lafur (GFL) ei defnyddio'n effeithiol i weddu i'r ddarpariaeth o ran cyfleoedd cyflogaeth leol. Yn aml, mae rhaglenni wedi eu seilio ar recriwtio hanesyddol traddodiadol ac fe gânt eu gyrru yn ôl y galw gan ddysgwyr yn hytrach na hyfforddi a datblygu nifer briodol o ddysgwyr i fodloni cyfleoedd cyflogaeth. O ganlyniad, ac mewn sefydliadau addysg bellach yn benodol, mae gormod o ddysgwyr amser llawn yn ennill cymwysterau ond nid ydynt yn cael neu'n cynnal cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu. Yn gyffredinol, nid yw cymwysterau adeiladu bob amser yn effeithiol wrth fodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr. Nid yw cymwysterau bob amser yn cynnwys nifer ddigonol o unedau dewisol priodol i fodloni anghenion hyfforddi dysgwyr a chyflogwyr. Nid yw fframweithiau'n cynnwys ffocws digonol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr chwaith.
- 30 Mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn gweithio'n dda yn anffurfiol gyda chyflogwyr. Yn yr achosion gorau, mae sefydliadau addysg bellach yn sefydlu fforymau cyflogwyr, sy'n darparu mewnbyn gwerthfawr ynglŷn ag anghenion hyfforddi presennol staff ac yn y dyfodol. Yn yr achosion gorau, mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, mae darparwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda. Er enghraifft, maent yn cael adborth gwerthfawr ar safbwyntiau dysgwyr a chyflogwyr o'r rhaglen ac yn gweithredu o ganlyniad i'r adborth.
- 31 Mae sefydliadau addysg bellach yn cynnig ystod eang o gyrsiau rhyddhau am y diwrnod amser llawn a rhan-amser. Bron ym mhob un o'r achosion, mae prentisiaid yn mynychu rhaglenni rhan-amser. Mewn dysgu yn y gwaith, cyflogir pob dysgwr, ac maent yn ymgymryd ag ystod eang o hyfforddiant yn y gwaith ynghyd ag addysg a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae rhai darparwyr wedi sefydlu perthnasoedd

gweithio da gydag ysgolion a rhwydweithiau 14-19 lleol. Mae hyn yn galluogi pobl ifanc i ymgymryd â chyrsiau rhagflas gwaith o 14 oed, ac mae'n rhoi'r cyfle iddynt symud ymlaen i hyfforddiant yn ddiweddarach. Mae darparwyr yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr hŷn fynd i mewn i'r sector, gwella eu medrau neu ailhyfforddi.

- 32 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnig ystod eang o raglenni hyfforddi arbenigol ar gyfer unigolion a sefydliadau eraill, mewn meysydd fel technoleg amgylcheddol, gwaith adeiladu treftadaeth, gwaith saer maen, diogelwch nwy, cael gwared ar asbestos, systemau dŵr poeth solar, paneli ffotovoltaidd (PV) ar doeon tai, pypiau gwresogi ffynhonnell daear, boeleri biomas, a chynaeafu dŵr.
- 33 Mae mwyafrif o sefydliadau addysg bellach yn ychwanegu at y rhaglenni medrau adeiladu craidd erbyn hyn gyda chyrsiau byr neu gyrsiau ychwanegol i adlewyrchu anghenion cyflogwyr lleol. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae sefydliadau addysg bellach yn gweithio gydag awdurdodau lleol neu fforymau cyflogwyr lleol lle mae ffocws ar hyfforddi pobl yn unol ag anghenion cyflogwyr lleol. Mae angen yn aml yn bodoli i ddysgu nifer o fedrau i gyflogeion mewn ystod o dasgau cysylltiedig gan fod cyflogeion a chleientiaid yn elwa ar staff sy'n gallu ymgymryd ag ystod o weithgareddau ar y safle. Ar hyn o bryd, mae rhai cyflogwyr yn cydnabod yr angen hyfforddi am staff sy'n meddu ar nifer o fedrau ac yn comisiynu hyfforddiant. Er enghraifft, mae un darparwr dysgu yn y gwaith hefyd yn hyfforddi plymeriaid awdurdod lleol mewn teilio fel rhan o'u hyfforddiant. Fodd bynnag, mewn dysgu yn y gwaith, nid yw rhai dysgwyr yn mynd ati'n rheolaidd i ymgymryd â'r tasgau ymarferol y mae angen iddynt eu cwblhau ar gyfer eu cymwysterau. Er enghraifft, nid yw dysgwyr gwaith plymer lefel 3 bob amser yn cael cyfleoedd i wneud gwaith sylweddol ar systemau gwres canolog.
- 34 At ei gilydd, mae argaeledd hyfforddiant medrau treftadaeth, fel rhaglenni adeiladu waliau sych a thoeon llechi, yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Pan fydd sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cyflwyno cyrsiau medrau technoleg newydd a threftadaeth, maent fel arfer o ganlyniad i alw gan gyflogwyr, yn aml ar y cyd â gweithgynhyrchwyr offer ac adnoddau technoleg newydd. Mae lleiafrif o sefydliadau addysg bellach wedi sefydlu canolfannau hyfforddi technoleg newydd o ansawdd uchel iawn, sy'n rhoi cyfle i weithwyr adeiladu profiadol ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth. Mae'r canolfannau hyn hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr eraill ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am y dechnoleg ddiweddaraf, er nad yw efallai'n rhan o'u cwrs presennol. Efallai na fydd angen y wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon ar ddysgwyr neu'u cyflogwyr ond maent o fudd i ddysgwyr trwy eu gwneud yn ymwybodol o'r dechnoleg bresennol.
- 35 Wrth ymgymryd â gweithgareddau i ffwrdd o'r gwaith mewn canolfan hyfforddi sefydliadau addysg bellach neu ddarparwr dysgu yn y gwaith, mae dysgwyr yn treulio cyfnod priodol ar y cyfan yn ymgymryd â gwaith ymarferol a theori. Yn y mwyafrif o achosion, caiff yr amser ei rannu'n gyfartal rhwng sesiynau ymarferol a theori. Mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, mae sesiynau theori yn yr ystafell ddosbarth wedi'u cysylltu'n agos â gweithgareddau ymarferol.
- 36 At ei gilydd, digonol yn unig yw'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig ac addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE). Mae'n rhy amrywiol ar draws sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith.

Yn yr enghreifftiau gorau, caiff y dimensiwn Cymreig ac ADCDFE eu hintegreiddio'n effeithiol yng ngwaith galwedigaethol dysgwyr. Er enghraifft, wrth fodloni anghenion Cymraeg, mae un sefydliad addysg bellach yn cynnal dadansoddiad trylwyr o anghenion iaith ei ddysgwyr. Mae'r sefydliad wedi'i leoli mewn ardal sydd â chyfran uchel iawn o siaradwyr Cymraeg mamiaith, a'r Gymraeg yw'r dewis cyntaf o ran iaith yn y gweithle. Defnyddir y ddwy iaith yn briodol mewn sesiynau. Mae'r holl ddysgwyr blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn yn dilyn uned mewn diwylliant Cymreig hefyd, sy'n cynnwys traddodiadau Cymru.

## Addysgu ac asesu

- 37 Nid yw'r dull o gyflwyno llawer o raglenni adeiladu wedi newid ers blynyddoedd lawer. Nid oes digon o sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith wedi datblygu rhaglenni hyfforddi ac asesu sy'n gwneud defnydd effeithiol o brofiad dysgwyr yn y gwaith ac yn integreiddio llythrennedd a rhifedd, ADCDFE a'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn llawn mewn rhaglenni hyfforddi.
- 38 Nid oes gan y mwyafrif ohonynt ddisgwyliadau digon uchel o'u dysgwyr. Nid ydynt yn herio dysgwyr yn effeithiol i ddatblygu medrau ymarferol a gwybodaeth am theori ar lefel uchel. Mae cynlluniau dysgu unigol yn briodol o fanwl ar y cyfan, ac maent yn cynnwys targedau personol defnyddiol ar gyfer cwblhau asesiadau ysgrifenedig ac ymarferol dysgwyr. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, mae'r targedau yn rhy generig ac maent yn gyffredin i ddysgwyr eraill yn y grŵp. Mewn gormod o achosion, nid yw cynlluniau dysgu yn cynnwys targedau ar wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn cadw cofnodion olrhain priodol ar gyfer dysgwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, mae olrhain yn monitro'n glir y cynnydd a wna dysgwyr yn erbyn targedau, ac mae'n nodi p'un a yw dysgwyr yn gwneud cynnydd arafach na'r hyn a gynlluniwyd.
- 39 Mae'r rhan fwyaf o athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn rhoi lefelau da o gymorth personol i ddysgwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhoddir lefelau priodol o oruchwyliaeth i ddysgwyr. Bron ym mhob un o'r amgylcheddau hyfforddi ymarferol, rhoddir sylw priodol i iechyd a diogelwch a lles dysgwyr.
- 40 At ei gilydd, mae arferion asesu yn bodloni anghenion cyrff dyfarnu. Fodd bynnag, ni chaiff asesiadau eu graddio yn gyffredinol, a gall dysgwyr gael gradd lwyddo yn unig. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr sy'n cynhyrchu gwaith ymarferol o ansawdd uwch yn cael cydnabyddiaeth am eu medrau ymarferol a'u gwybodaeth am theori ar lefel uwch. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith wedi datblygu ac yn defnyddio eu system raddio eu hunain ar gyfer asesiadau sy'n cydnabod cyflawniad dysgwyr sy'n perfformio ar lefel uwch. Yn yr enghreifftiau hyn, mae dysgwyr yn cael cydnabyddiaeth trwy gael tystysgrifau wedi'u dyfarnu iddynt gan eu sefydliad addysg bellach neu'u darparwr dysgu yn y gwaith. Mewn dysgu yn y gwaith, cynhelir llawer o adolygiadau asesu a chynnydd dysgwyr yn rheolaidd, ac fe gânt eu cofnodi'n dda ar y cyfan. Yn y mwyafrif o achosion, caiff asesiadau ar y safle eu cynllunio'n dda ac maent yn cymhell dysgwyr i gwblhau eu fframwaith hyfforddi mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio asesiadau bob amser yn ddigon manwl, a thargedau tymor byr yn unig sy'n cael eu gosod ar gyfer dysgwyr i gwblhau gwaith. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n

elwa ar dargedau clir sy'n cael eu gosod a'u monitro yn eu cynlluniau unigol, sy'n gysylltiedig â sut gallant wella eu llythrennedd a'u rhifedd. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa ar adborth llafar da ar eu perfformiad gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr.

- 41 Mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, caiff asesu theori i ffwrdd o'r gwaith ei gynllunio'n dda trwy gydol y flwyddyn, ac mae mwyafrif yr aseswyr yn ymatebol i fodloni anghenion dysgwyr ac yn trefnu asesiadau i fodloni anghenion unigol dysgwyr. Yn gyffredinol, caiff asesiadau ymarferol eu cynllunio i weddu i gynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, mewn dysgu yn y gwaith, caiff asesiadau ymarferol yn y gwaith eu cynnal ar fyr rybudd yn aml gan nad yw dysgwyr a'u cyflogwyr bob amser yn gwybod pa waith a sicrhawyd ar gyfer yr ychydig wythnosau canlynol.
- 42 Mae'r rhan fwyaf o athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn meddu ar ystod eang o brofiad diwydiannol cyn dechrau addysgu ac mae ganddynt gymwysterau addas. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddent yn cael profiad o ymgymryd â hyfforddiant, sef prentisiaeth wedi'i dilyn gan brofiad yn gweithredu fel gweithiwr crefftiau medrus gan amlaf. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn meddu ar gymwysterau priodol ac yn defnyddio eu profiad diwydiannol yn dda yn ystod sesiynau ymarferol. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif ohonynt wedi gweithio yn y diwydiant am sawl blwyddyn ac nid oes ganddynt brofiad diwydiannol cyfoes. Yn y mwyafrif o sesiynau theori yn yr ystafell ddosbarth, mae athrawon yn paratoi ystod eang o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn llawn. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu ar eu profiad a'u gwybodaeth flaenorol yn dda. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn ymgysylltu'n dda â dysgwyr ac yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da tuag at gwblhau'r targedau a osodwyd yn eu CDUau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, mae'r athro yn cyfrannu gormod, sy'n golygu bod dysgwyr yn oddefol am gyfnodau hir. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon a hyfforddwyr yn dibynnu gormod ar daflenni a dysgwyr yn copïo nodiadau.

### **Llythrennedd, rhifedd a chymorth**

- 43 At ei gilydd, mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, nid yw lleiafrif o staff adeiladu yn cydnabod manteision cynorthwyo dysgwyr i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Er bod gan y rhan fwyaf o sefydliadau addysg bellach strategaeth lythrennedd fanwl, nid yw lleiafrif o staff yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddysgwyr a fydd yn eu galluogi i wella eu perfformiad yn y dyfodol. Ni chaiff gwaith ysgrifenedig dysgwyr ei farcio'n dda, ac ni chaiff camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadegol eu cywiro. Mewn lleiafrif o achosion, mae gormod o amrywiad yn ansawdd yn ansawdd y cymorth llythrennedd a rhifedd mewn darpariaeth adeiladu ac ar ei thraws. Ni chaiff datblygiad a chymorth llythrennedd a rhifedd eu hintegreiddio'n llawn ym mhob rhaglen.
- 44 Mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, mae dysgwyr yn elwa ar asesiad cychwynnol cynhwysfawr ar y cyfan pan fyddant yn dechrau rhaglenni. Mae dysgwyr ag anghenion cymorth dysgu canfyddadwy yn cael lefelau da ar y cyfan o gymorth personol yn y sefydliad neu wrth fynychu gweithgareddau i ffwrdd o'r gwaith. Fodd bynnag, mewn dysgu yn y gwaith, nid oes gan y rhan fwyaf o



ddarparwyr weithdrefnau effeithiol i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael cymorth yn eu gweithleoedd.

- 45 Mae staff sy'n cynnal adolygiadau neu asesiadau dysgwyr ar y safle yn aml yn datblygu cysylltiadau anffurfiol da gyda'r sector trwy eu cyswllt rheolaidd gyda chyflogwyr. Mae'r rhan fwyaf o staff adeiladu yn rhoi lefelau da o gymorth personol i ddysgwyr, yn enwedig mewn sesiynau gweithdy ymarferol ac wrth gynnal adolygiadau ac asesiadau ymarferol ar y safle.
- 46 Nid yw lleiafrif o athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn dangos y medrau sydd eu hangen i'w galluogi i roi lefelau da o gymorth llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr ar hyn o bryd. Mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, mae lleiafrif o reolwyr wedi bod yn araf i wneud yn siŵr bod pob aelod o staff adeiladu yn gwella'u medrau'n effeithiol i roi cymorth priodol i ddysgwyr. Nid yw rhai o'r staff dysgu yn y gwaith sy'n cynnal asesiadau neu adolygiadau ar y safle yn rhoi cymorth llythrennedd a rhifedd effeithiol i ddysgwyr yn eu gweithleoedd.
- 47 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg bellach a mwyafrif y darparwyr dysgu yn y gwaith wedi rhoi strategaethau ar waith, neu'n dechrau gwneud hynny, i gefnogi athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr i ddatblygu eu medrau i'w galluogi i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr. Yn y darparwyr hyn, caiff staff fel arfer eu cefnogi gan strategaeth lythrennedd ysgrifenedig sy'n cael ei hategu gan weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

## **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- 48 At ei gilydd, mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn gweithio'n dda gydag ystod dda o bartneriaid, gan gynnwys cynghorau sgiliau sector, cyrff dyfarnu, awdurdodau lleol, ysgolion a grwpiau yn gysylltiedig â diwydiant, fel CITB-Sgiliau Adeiladu, Colegau Cymru, a Chymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain (BACH). Mae CITB-Sgiliau Adeiladu yn trefnu cynhadledd flynyddol a chyfarfodydd rheolaidd i roi'r cyfle i rannu arfer orau a datblygiadau mewn hyfforddiant crefftiau adeiladu. Mewn dysgu yn y gwaith, rhoddir cyfleoedd tebyg i ddarparwyr weithio gyda rhwydweithiau, gan gynnwys gweithio gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC).
- 49 Mewn sefydliadau addysg bellach, mae rheolwyr a staff yn llunio adroddiadau hunanasesu (AHA) a chynlluniau datblygu ansawdd (CDA). Yn yr achosion gorau, mae'r adroddiadau hyn yn gynhwysfawr, yn fanwl ac yn dadansoddi perfformiad y ddarpariaeth yn erbyn meincnodau cenedlaethol ac yn gosod targedau heriol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mewn rhai sefydliadau addysg bellach a lleiafrif o ddarparwyr dysgu yn y gwaith, mae AHAAu yn rhy ddisgrifiadol, ac nid ydynt yn cynnwys cynlluniau a thargedau ar gyfer gwella sy'n drylwyr a heriol.
- 50 Er bod rheolwyr yn gyffredinol yn cymharu data meincnod cenedlaethol gyda sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith eraill, nid ydynt yn cymharu eu hunain â darparwyr tebyg yn eu rhanbarth ddaearyddol yn rheolaidd. Ar draws y mwyafrif o ddarparwyr, ni wneir digon o gymariaethau rhwng perfformiadau yn y gwahanol fasnachau ar draws rhanbarthau.

- 51 Yn y lleiafrif o sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith lle mae'r ddarpariaeth rheoli adeiladu yn dda, mae rheolwyr yn gosod ac yn monitro targedau a safonau clir ar gyfer staff a dysgwyr. Dangosant arweinyddiaeth effeithiol ac maent yn sefydlu cyfathrebu da ar draws eu hadran. Yn aml, mae ganddynt rôl bwysig mewn gweithio mewn partneriaeth. Maent yn monitro perfformiad pob dysgwr gan ddefnyddio ystod gadarn o ddangosyddion perfformiad. Caiff tanberfformio mewn rhaglenni neu gan staff ei nodi'n gyflym a rhoddir camau gweithredu cywirol ar waith. Mae gan y sefydliadau addysg bellach a'r darparwyr dysgu yn y gwaith hyn hanes da o wella a safonau cyson uchel ar draws bron pob un o'r meysydd galwedigaethol, os nad pob un.
- 52 Fodd bynnag, mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith lle nad yw rheolwyr ac arweinwyr yn dangos arweinyddiaeth glir, nid eir i'r afael â thanberfformiad dysgwyr a staff yn effeithiol ac mae amrywiad eang o ran perfformiad mewn llwybrau galwedigaethol. Nid yw'r rheolwyr hyn yn canolbwyntio digon ar wella safon yr addysgu a'r dysgu ar draws y ddarpariaeth. Yn yr achosion hyn, nid yw arsylwadau hyfforddwyr ac aseswyr yn ddigon trylwyr, ac nid ydynt yn arwain at welliannau sylweddol yn ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant. Nid yw'r rheolwyr hyn yn gwneud digon i nodi arfer dda ar draws y sector i'w rhannu â'u staff. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r rheolwyr hyn yn canolbwyntio digon ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar ddatblygu medrau eu staff chwaith.
- 53 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) wedi'i gysylltu'n glir ag adolygiadau o berfformiad staff. Bron ym mhob un o'r sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, caiff staff gyfleoedd da i ofyn am DPP. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid yw DPP yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau dysgwyr. Mewn mwyafrif o achosion, nid yw DPP sy'n ymwneud â gwella medrau llythrennedd a rhifedd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr a'u gallu i ddatblygu medrau dysgwyr, yn ddigon cadarn. Yn yr achosion hyn, nid yw rheolwyr ac arweinwyr wedi bod yn ddigon heriol a chadarn wrth sicrhau gwelliant. Mewn staff hyfforddiant dysgu yn y gwaith, gall staff fanteisio ar gyfleoedd DPP yn gyffredinol i ddatblygu medrau hyfforddi ac asesu. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr athrawon, yr hyfforddwyr a'r aseswyr yn meddu ar brofiad diwydiannol diweddar.
- 54 Mae'r sector yn wynebu her i wella gallu staff adeiladu mewn llythrennedd a rhifedd. At ei gilydd, prin yw'r sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith sydd wedi rhoi systemau trylwyr ar waith i fesur effaith DPP ar berfformiad yr athro, yr hyfforddwr neu'r asesydd ac ar brofiad y dysgwyr. Er enghraifft, mae llawer o staff wedi ymgymryd â DPP sy'n ymwneud â gwella medrau llythrennedd dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw gweithgarwch dilynol gan reolwyr yn monitro ac yn adolygu'r effaith yr hyfforddiant ar ddysgwyr yn effeithiol.
- 55 Mae nifer o ddarparwyr wedi sefydlu perthnasoedd gweithio da gydag ysgolion i gyflwyno rhaglenni 'cyswllt' yn ogystal â darparu cyngor da ar yrfaedd a chyfleoedd dilyniant da pan fydd y dysgwr yn gadael yr ysgol. Er enghraifft, mae gan Sefydliad Iâl gyswllt eang ag ysgolion lleol ac mae dros 600 o ddysgwyr, 14 i 16 oed sy'n dilyn rhaglenni hyfforddi, ac mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnal clwb Sadwrn ar gyfer plant 15 oed ar ei safle yn Llangefni a Bangor.

- 56 At ei gilydd, mewn gormod o achosion, cyfyngedig yw'r berthynas waith rhwng sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Yn yr achosion hyn, mae angen i ddarparwyr wneud mwy i ymgysylltu ag ysgolion a gwneud yn siŵr bod arweinwyr ysgol a staff addysgu yn cael gwybod yn llawn am y cyfleoedd sydd gan y sector adeiladu i'w cynnig i bobl ifanc. At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae ysgolion yn cysylltu cynnydd dysgwyr â'r lefel nesaf o addysg neu hyfforddiant yn y sefydliad neu'r darparwr dysgu yn y gwaith yn dda.

## Adeiladau ac adnoddau

- 57 Ar draws sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, ar y cyfan, gall dysgwyr fanteisio ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr dysgu yn y gwaith yn gweithio i gyflogwyr cefnogol sy'n rhoi cyfleoedd hyfforddi ac asesu da iddynt.
- 58 At ei gilydd, mae'r adeiladau ar gyfer adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig yn dda ar y cyfan. Mae mwyafrif y sefydliadau addysg bellach wedi buddsoddi mewn datblygu eu hadeiladau, ac mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar yr adnoddau a'r offer hyfforddi da sydd ar gael. Mewn lleiafrif o achosion, mae ansawdd adeiladau ac adnoddau yn uchel iawn ac yn darparu ystod eang o offer ar gyfer dysgwyr i ymarfer a datblygu eu medrau. Mewn nifer o achosion, mae sefydliadau addysg bellach wedi gweithio mewn partneriaeth â gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr i sicrhau nawdd. Yn yr achosion hyn, mae gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr yn aml yn cyflenwi cyfarpar, adnoddau ac offer. Mewn nifer o enghreifftiau, mae gweithgynhyrchwyr yn defnyddio'r cyfleusterau fel 'canolfan hyfforddi' ar gyfer rhoi hyfforddiant diweddar a hyfforddiant mewn cynnyrch i'w cyflogion.
- 59 Y gwariant parhaus mwyaf arwyddocaol ar gyfer sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yw prynu nwyddau traul sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer tasgau ymarferol ac asesiadau. Er enghraifft, mae angen cyflenwad cyson o frics ar ddysgwyr gwaith brics, mae angen pren ar ddysgwyr gwaith saer ac asiedydd ac mae angen ceblau a chysylltiadau ar ddysgwyr electro-dechnegol.
- 60 Mae gweithlu sy'n heneiddio yn y mwyafrif o sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Nid ydynt yn ei chael yn anodd recriwtio staff ychwanegol yn lle staff sy'n gadael neu'n ymddeol.
- 61 Gan fod cost darpariaeth adeiladu yn gymharol uchel, mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cynnwys pwysladau ariannol i gynorthwyo â chostau ychwanegol adnoddau ac adnoddau traul. Ar hyn o bryd, mae rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig mewn sefydliadau addysg bellach yn elwa ar gynnydd o 50% mewn cyllid o gymharu â llawer o raglenni eraill nad oes angen defnyddio cryn dipyn o adnoddau traul ar eu cyfer. Bron ym mhob achos, mae sefydliadau addysg bellach yn defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn yn dda i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gallu defnyddio'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gwblhau tasgau hyfforddi ymarferol ac asesiadau.

## **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth**

Wrth gynnal yr arolwg hwn, fe wnaeth arolygwyr:

- anfon holiadur i'r holl sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith sy'n cyflwyno addysg a hyfforddiant mewn adeiladu yng Nghymru, a chawsant lefel uchel o ymateb, a hynny gan y rhan fwyaf o ddarparwyr;
- ymweld â 15 o sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, ac yn ystod y cyfnod hwn, arsylwodd arolygwyr sesiynau addysgu a dysgu mewn ystod o amgylcheddau, gan gynnwys gweithdai ac ystafelloedd dosbarth, a chyfweld â dysgwyr, staff a rheolwyr;
- adolygu a dadansoddi data ar berfformiad dysgwyr; a
- chraffu ar waith ysgrifenedig a gwaith ymarferol dysgwyr.

### **Sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yr ymwelwyd â nhw**

- Associated Community Training
- CITB-Sgiliau Adeiladu
- Coleg Castell-nedd Port Talbot
- Coleg Ceredigion
- Coleg Gwent
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Iâl
- Coleg Morgannwg
- Coleg Penfro
- Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
- Coleg Sir Gâr
- Coleg Ystrad Mynach
- Consortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru
- Employment Training Abertawe
- Grŵp Llandrillo Menai (sy'n cynnwys Coleg Llandrillo, a Choleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor)
- Hyfforddiant Torfaen

## **Atodiad 2: Cwestiynau ar gyfer hunanarfarnu i hyrwyddo gwelliant mewn rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig**

### **A yw dysgwyr:**

- yn ennill eu cymwysterau ac yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi ar gyfraddau uchel ar draws yr holl fasnachau;
- yn datblygu safonau uchel o gymhwysedd ymarferol;
- yn datblygu lefelau uchel o wybodaeth am theori;
- yn manteisio ar brofiad gwaith o ansawdd da;
- yn datblygu medrau priodol i gael a chynnal cyflogaeth;
- yn cael cyfleoedd asesu da yn y gweithle;
- yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd;
- yn datblygu eu medrau Cymraeg;
- yn gallu cael cyngor o ansawdd da ar yrfaeoddedd;
- yn cael cyfleoedd da i gwblhau eu cymwysterau yn gyflymach na'r disgwyl os yw'n briodol;
- yn dangos dealltwriaeth dda o'u CDU;
- yn gwybod faint o gynnydd y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gwblhau eu cwrs neu'u hyfforddiant;
- yn datblygu medrau cyfathrebu llafar a rhyngpersonol gwell;
- yn datblygu medrau lluosog; ac
- yn gwella eu medrau entrepreneuriaidd?

### **A yw athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr:**

- yn disgwyl llawer gan ddysgwyr;
- yn herio dysgwyr i ennill medrau ymarferol ar lefel uwch;
- yn herio dysgwyr i ennill gwybodaeth am theori ar lefel uwch;
- yn cynllunio asesiadau ar y safle i fodloni datblygiad medrau dysgwyr;
- yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddysgwyr ar eu gwaith ysgrifenedig;
- yn rhoi cymorth effeithiol i ddysgwyr i wella eu llythrennedd a'u rhifedd;
- yn cynllunio rhaglenni i wneud y gorau o sesiynau ymarferol ar gyfer integreiddio gwaith theori;
- yn cysylltu sesiynau ymarferol â sesiynau theori;
- yn defnyddio adnoddau cymhellol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr;
- yn defnyddio profiad dysgwyr yn y gweithle i osgoi dyblygu gwaith ymarferol wrth fynychu sesiynau i ffwrdd o'r gwaith;
- yn gosod ac yn monitro targedau clir a heriol yn CDUau dysgwyr;
- yn defnyddio dogfennaeth gynhwysfawr i olrhain cynnydd;
- yn integreiddio ADCDFE mewn rhaglenni;
- yn sicrhau profiad gwaith cynlluniedig ar gyfer yr holl ddysgwyr amser llawn mewn sefydliadau addysg bellach;
- yn datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda chyflogwyr; ac
- yn dilyn hynt a helynt arfer bresennol yn y sector?

## **A yw arweinwyr a rheolwyr:**

- yn gweddu darpariaeth i gyfleoedd cyflogaeth;
- yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur i dargedu rhaglenni yn unol ag angen cyflogaeth a chyflogwyr;
- yn sefydlu perthnasoedd gweithio adeiladol gyda chyflogwyr;
- yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr;
- yn monitro perfformiad y ddarpariaeth yn erbyn meincnodau cenedlaethol yn rheolaidd;
- yn monitro ac yn gwella ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn barhaus;
- yn herio pob aelod o staff i roi safonau uchel o addysg a hyfforddiant i ddysgwyr;
- yn herio athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr i ddatblygu eu gallu i roi cymorth llythrennedd a rhifedd effeithiol i ddysgwyr;
- yn nodi ac yn rhannu arfer orau; ac
- yn defnyddio adolygiad o berfformiad staff yn effeithiol?

### Atodiad 3: Cymariaethau data

Cyfraddau cwblhau ar gyfer darpariaeth sefydliadau addysg bellach yn ôl maes pwnc sector a hyd nod dysgu, 2010/11

Maes pwnc sector	Gweithgareddau hir		Gweithgareddau byr		Pob hyd	
	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	%	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	%	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	%
1: Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	16,970	85%	20,570	98%	38,785	92%
2: Gwyddoniaeth a Mathemateg	12,880	85%	1,475	92%	14,385	86%
3: Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	4,685	91%	2,725	98%	7,415	93%
4: Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyr-chu	11,230	89%	3,685	99%	15,100	91%
5: Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	9,690	89%	2,345	99%	12,040	91%
6: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	16,835	91%	14,715	94%	51,110	92%
7: Manwerthu a Menter Fasnachol	18,345	91%	3,905	95%	22,320	92%
7(a): Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid	1,360	90%	465	99%	1,860	92%
7(b): Gwallt a Harddwch	6,575	86%	875	90%	7,450	87%
7(c): Lletygarwch ac Arlwyio	10,410	95%	2,565	96%	13,010	95%
8: Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	7,795	89%	1,905	97%	10,020	90%
9: Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi	18,020	87%	8,720	95%	26,795	90%
9(a): Y Celfyddydau Perfformiadol	4,430	87%	1,070	95%	5,500	89%
9(b): Celf a Dylunio	13,585	88%	7,650	95%	21,290	90%
10: Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	3,930	89%	1,070	94%	5,020	90%
11: Y Gwyddorau Cymdeithasol	3,200	88%	490	95%	3,685	89%
12: Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	12,110	88%	4,775	92%	18,780	88%

13: Addysg a Hyfforddiant	6,545	<b>92%</b>	3,905	<b>96%</b>	10,620	<b>93%</b>
14: Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith	139,515	<b>89%</b>	36,550	<b>96%</b>	183,980	<b>90%</b>
14(a): Medrau Byw yn Annibynnol	2,700	<b>92%</b>	1,005	<b>97%</b>	3,855	<b>93%</b>
14(b): Addysg Sylfaenol i Oedolion	12,370	<b>93%</b>	9,075	<b>94%</b>	26,715	<b>93%</b>
14(c): Sylfaen i Waith	119,400	<b>88%</b>	20,235	<b>97%</b>	142,020	<b>89%</b>
14(ch): Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill	5,045	<b>87%</b>	6,230	<b>94%</b>	11,390	<b>91%</b>
15: Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith	14,595	<b>89%</b>	8,640	<b>98%</b>	26,460	<b>92%</b>
<b>Holl feysydd pwnc y sector</b>	<b>297,285</b>	<b>89%</b>	<b>116,245</b>	<b>96%</b>	<b>448,870</b>	<b>90%</b>

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)

Llywodraeth Cymru | Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith, 2010/11

### Cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer darpariaeth sefydliadau addysg bellach yn ôl maes pwnc sector a hyd nod dysgu, 2010/11

Maes pwnc sector	Gweithgareddau hir		Gweithgareddau byr		Pob hyd	
	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	%	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	%	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	%
1: Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	14,235	<b>90%</b>	16,850	<b>95%</b>	31,180	<b>93%</b>
2: Gwyddoniaeth a Mathemateg	10,795	<b>85%</b>	1,195	<b>91%</b>	12,000	<b>86%</b>
3: Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	3,750	<b>90%</b>	2,290	<b>93%</b>	6,045	<b>91%</b>
4: Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyr-chu	9,665	<b>88%</b>	2,185	<b>89%</b>	11,900	<b>88%</b>
5: Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	8,265	<b>89%</b>	1,850	<b>92%</b>	10,115	<b>89%</b>
6: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	11,755	<b>87%</b>	11,170	<b>92%</b>	25,780	<b>89%</b>
7: Manwerthu a Menter Fasnachol	16,750	<b>93%</b>	2,895	<b>92%</b>	19,655	<b>93%</b>
7(a): Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid	1,260	<b>93%</b>	250	<b>93%</b>	1,505	<b>93%</b>
7(b): Gwallt a Harddwch	5,920	<b>92%</b>	590	<b>90%</b>	6,515	<b>92%</b>



7(c): Lletygarwch ac Arlwyo	9,570	<b>94%</b>	2,055	<b>93%</b>	11,635	<b>93%</b>
8: Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	7,055	<b>92%</b>	1,555	<b>97%</b>	8,615	<b>93%</b>
9: Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi	15,780	<b>92%</b>	7,085	<b>93%</b>	22,880	<b>92%</b>
9(a): Y Celfyddydau Perfformiadol	3,805	<b>90%</b>	780	<b>95%</b>	4,580	<b>91%</b>
9(b): Celf a Dylunio	11,980	<b>92%</b>	6,310	<b>93%</b>	18,300	<b>93%</b>
10: Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	3,430	<b>92%</b>	505	<b>88%</b>	3,935	<b>92%</b>
11: Y Gwyddorau Cymdeithasol	2,820	<b>90%</b>	235	<b>95%</b>	3,050	<b>90%</b>
12: Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	9,885	<b>91%</b>	3,875	<b>92%</b>	13,905	<b>91%</b>
13: Addysg a Hyfforddiant	5,200	<b>88%</b>	2,860	<b>94%</b>	8,080	<b>90%</b>
14: Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith	109,530	<b>89%</b>	28,030	<b>92%</b>	139,205	<b>90%</b>
14(a): Medrau Byw yn Annibynnol	1,285	<b>91%</b>	650	<b>86%</b>	1,935	<b>89%</b>
14(b): Addysg Sylfaenol i Oedolion	6,770	<b>92%</b>	5,480	<b>88%</b>	13,535	<b>91%</b>
14(c): Sylfaen i Waith	97,655	<b>89%</b>	17,275	<b>95%</b>	115,295	<b>90%</b>
14(ch): Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill	3,815	<b>88%</b>	4,625	<b>88%</b>	8,440	<b>88%</b>
15: Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith	10,805	<b>84%</b>	4,700	<b>90%</b>	15,635	<b>86%</b>
<b>Holl feysydd pwnc y sector</b>	<b>240,080</b>	<b>89%</b>	<b>87,780</b>	<b>93%</b>	<b>332,855</b>	<b>90%</b>

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)

Llywodraeth Cymru | Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith, 2010/11

**Cyfraddau llwyddo ar gyfer darpariaeth sefydliadau addysg bellach yn ôl maes pwnc sector a hyd nod dysgu, 2010/11**

Maes pwnc sector	Gweithgareddau hir		Gweithgareddau byr		Pob hyd	
	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	%	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	%	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	%
1: Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	14,235	<b>76%</b>	16,850	<b>93%</b>	31,180	<b>85%</b>
2: Gwyddoniaeth a Mathemateg	10,795	<b>72%</b>	1,195	<b>83%</b>	12,000	<b>73%</b>
3: Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	3,750	<b>82%</b>	2,290	<b>91%</b>	6,045	<b>86%</b>
4: Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhryr-chu	9,665	<b>78%</b>	2,185	<b>87%</b>	11,900	<b>80%</b>
5: Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	8,265	<b>79%</b>	1,850	<b>91%</b>	10,115	<b>81%</b>
6: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	11,755	<b>78%</b>	11,170	<b>86%</b>	25,780	<b>82%</b>
7: Manwerthu a Menter Fasnachol	16,750	<b>85%</b>	2,895	<b>87%</b>	19,655	<b>85%</b>
7(a): Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid	1,260	<b>84%</b>	250	<b>91%</b>	1,505	<b>85%</b>
7(b): Gwallt a Harddwch	5,920	<b>80%</b>	590	<b>79%</b>	6,515	<b>80%</b>
7(c): Lletygarwch ac Arlwyio	9,570	<b>89%</b>	2,055	<b>89%</b>	11,635	<b>89%</b>
8: Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	7,055	<b>82%</b>	1,555	<b>94%</b>	8,615	<b>84%</b>
9: Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi	15,780	<b>80%</b>	7,085	<b>88%</b>	22,880	<b>82%</b>
9(a): Y Celfyddydau Perfformiadol	3,805	<b>79%</b>	780	<b>91%</b>	4,580	<b>80%</b>
9(b): Celf a Dylunio	11,980	<b>80%</b>	6,310	<b>88%</b>	18,300	<b>83%</b>
10: Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	3,430	<b>83%</b>	505	<b>82%</b>	3,935	<b>82%</b>
11: Y Gwyddorau Cymdeithasol	2,820	<b>79%</b>	235	<b>88%</b>	3,050	<b>79%</b>
12: Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	9,885	<b>79%</b>	3,875	<b>84%</b>	13,905	<b>81%</b>
13: Addysg a Hyfforddiant	5,200	<b>81%</b>	2,860	<b>89%</b>	8,080	<b>83%</b>
14: Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith	109,530	<b>79%</b>	28,030	<b>88%</b>	139,205	<b>80%</b>
14(a): Medrau Byw yn Annibynnol	1,285	<b>86%</b>	650	<b>83%</b>	1,935	<b>85%</b>
14(b): Addysg Sylfaenol i Oedolion	6,770	<b>85%</b>	5,480	<b>83%</b>	13,535	<b>85%</b>
14(c): Sylfaen i Waith	97,655	<b>78%</b>	17,275	<b>92%</b>	115,295	<b>80%</b>

14(ch): Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill	3,815	78%	4,625	83%	8,440	80%
15: Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith	10,805	74%	4,700	87%	15,635	78%
<b>Holl feysydd pwnc y sector</b>	<b>240,080</b>	<b>79%</b>	<b>87,780</b>	<b>89%</b>	<b>332,855</b>	<b>81%</b>

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)  
Llywodraeth Cymru | Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith, 2010/11

### Cyfraddau llwyddo mewn fframwaith ar gyfer darpariaeth sefydliadau addysg bellach yn ôl maes pwnc sector a hyd nod dysgu, 2010/11

Maes pwnc sector	Prentisiaethau Sylfaen		Prentisiaethau		Yr Holl Brentisiaethau	
	Nifer yr ymadawyr yn cyflawni'r Fframwaith Llawn	%	Nifer yr ymadawyr yn cyflawni'r Fframwaith Llawn	%	Nifer yr ymadawyr yn cyflawni'r Fframwaith Llawn	%
1: Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	1,760	79%	1,430	80%	3,190	80%
3: Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	55	74%	10	*	65	71%
4: Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu	910	82%	850	88%	1,760	85%
5: Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	885	78%	675	76%	1,560	77%
6: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	540	84%	210	83%	750	83%
7: Manwerthu a Menter Fasnachol	2,275	81%	825	83%	3,100	82%
7(a): Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid	1,300	84%	460	86%	1,760	85%
7(b): Gwallt a Harddwch	380	74%	170	75%	550	74%
7(c): Lletygarwch ac Arlwyo	595	81%	200	84%	795	81%
8: Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	135	75%	140	86%	275	80%
13: Addysg a Hyfforddiant	60	91%	315	88%	375	89%
15: Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith	1,060	83%	1,145	86%	2,205	85%
<b>Holl feysydd pwnc y sector</b>	<b>7,685</b>	<b>81%</b>	<b>5,600</b>	<b>83%</b>	<b>13,285</b>	<b>82%</b>

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)  
Llywodraeth Cymru | Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith, 2010/11

## Geirfa

### Esboniad o dermau arbenigol

Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig	Y medrau ymarferol a'r wybodaeth am theori a gyflwynir gan sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith o dan y maes dysgu 'adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig'
City & Guild	Sefydliad sy'n datblygu ac yn dyfarnu cymwysterau, er enghraifft mewn gosod brics neu waith plymer
BTEC/Edexcel	Sefydliad sy'n datblygu ac yn dyfarnu cymwysterau, er enghraifft Tystysgrif Genedlaethol Uwch BTEC mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
BACH	Cymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain; sefydliad a ffurfiwyd gan staff sy'n rheoli a chyflwyno hyfforddiant adeiladu
Cofrestriadau	Nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar raglen astudio neu gwrs
Cyfraddau cyrhaeddiad	Mae'r rhain yn dangos cyfran y dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster ar ôl cwblhau cwrs.
Cyfraddau cwblhau	Mae'r rhain yn dangos cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau cwrs ar ôl cofrestru arno.
Cyfraddau llwyddo	Cyfran y dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster ar ôl cofrestru ar gwrs.
CMC	Cynnyrch Mewnwladol Crynswth
GYC	Gwerth Ychwanegol Crynswth
HNC	Tystysgrif Genedlaethol Uwch
HND	Diploma Cenedlaethol Uwch
FfHCC	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
BBaCh	Busnesau bach a chanolig eu maint

**Esboniad o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir i ddisgrifio arfarniadau Estyn**

Y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y golofn ar yr ochr chwith yw'r rhai a ddefnyddir gennym i ddisgrifio ein harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn ar yr ochr dde yw'r esboniadau mwy manwl gywir.

bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf	90% neu fwy
llawer	70% neu fwy
mwyafrif	dros 60%
hanner neu tua hanner	yn agos at 50%
lleiafrif	islaw 40%
rhai	islaw 20%
ychydig iawn	llai na 10%

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

Mark Evans AEM	Awdur yr adroddiad cylch gwaith
Bernard Hayward AEM	Aelod o'r tîm
Bernard O'Reilly AEM	Aelod o'r tîm